Cerdyn myfyriwr

Derbynnydd cornbilen yn ddiolchgar dros ben am gael gweld yn glir

Roedd y peiriannydd wedi ymddeol, Ambrose Field, yn rhyfeddu at y gwahaniaeth a wnaeth trawsblaniadau cornbilen i'w fywyd.

"Roedd y trawsnewidiad yn rhyfeddol," meddai Ambrose. "Eisteddais yn yr ardd ac roeddwn nid yn unig yn gallu gweld y blodau'n gliriach, ond roeddwn yn gallu cyfrif y petalau hyd yn oed."

Cafodd Ambrose, sy'n 85 oed, ac yn hen dad-cu i dri o blant, ei drawsblaniad cornbilen cyntaf ym 1998 ar ôl iddo gael y diagnosis bod ganddo gataractau a bod y gornbilen wedi treulio gan achosi anhawster mawr wrth ddarllen. Cafodd ail drawsblaniad cornbilen yn 2001.



> "Ar ôl i mi gael yr ail drawsblaniad dechreuais feddwl am y bobl oedd wedi rhoi'r rhodd hon i mi."

Ysgrifennodd Ambrose lythyrau o ddiolch at deuluoedd y rhoddwyr - y mae eu manylion yn dal i fod yn hollol gyfrinachol - a gofynnodd i gydlynwyr y rhoddwyr drosglwyddo ei lythyrau. Ymhen amser derbyniodd lythyr gan ferch-yng-nghyfraith ei roddwr cyntaf yn gofyn a allen nhw gyfarfod, ac fe wnaethon nhw hynny.

"Rwy'n meddwl fod yr hyn a wnaeth y teulu yn beth rhyfeddol," meddai Ambrose.

Gallwch ddarllen mwy o storïau gwir ar:
www.giveandletlive.co.uk

NHS
Gwaed a Thrawsblaniadau

Ffeil ffeithiau

1. Ffilm o feinwe clir ar flaen y llygad yw'r gornbilen. Ffenestr yw hon sy'n hidlo'r golau a ddaw i mewn i'r llygad ac sy'n ei ddiogelu rhag pethau dieithr.

2. Y rheswm mwyaf cyffredin pam fod angen trawsblaniad ar berson yw pan fo'r gornbilen yn aflunio i siâp côn (cyflwr a elwir ceratoconus). Mae hyn yn amharu ar y ffordd y mae golau'n cael ei hidlo i mewn i'r llygad: mae'r golwg yn pylu'n gynyddol ac yn y pen draw gellir ei golli'n gyfan gwbl.

3. Yn wahanol i organau, gellir rhoi cornbilennau a meinwe arall hyd at 24 awr ar ôl i berson farw.

4. Gall pobl hŷn roi cornbilennau, a gellir eu trawsblannu i bobl hŷn hefyd.

Trafodaethau byw

Dewiswch un neu fwy o'r datganiadau canlynol i'w trafod fel grŵp. Ysgrifennwch y ddadl dros ac yn erbyn y datganiadau a phenderfynwch ar ba ochr yr ydych chi. A yw pob aelod o'ch grŵp yn cytuno?

- "Nid wyf yn credu ei bod yn iawn i dorri cyrff i fyny ar ôl iddyn nhw farw, ac yn enwedig eich llygaid."
- "Does gen i ddim problem gyda rhoi organau a meinwe, ond byddwn i ddim am gynhyrfu fy nheulu."
- "Mae'n naturiol bod golwg pobl yn dirywio wrth iddyn nhw fynd yn hŷn. Dylen nhw ddysgu byw gyda hyn."

Rhoi eich hun yn eu hesgidiau nhw

- Cyn i Ambrose Field gael ei drawsblaniadau cornbilen ni allai ddarllen na gweld y blodau yn ei ardd. Gyda'r cornbilennau newydd mae ei olwg wedi ei adfer. Ysgrifennwch dudalen ddyddiadur am y diwrnod pan fedrodd Ambrose fwynhau ei ardd eto.
- Beth fyddai Ambrose yn debygol o fod wedi ysgrifennu i deuluoedd y rhoddwyr? Beth allen nhw ddweud mewn ateb ynghylch pam wnaethon nhw ganiatáu i anwylyd roi ei gornbilennau ar ôl iddo farw?
- Beth fyddech chi'n ei ddweud neu wneud petaech yn awyddus iawn i gofrestru fel rhoddwr ond roedd eich rhieni yn gryf yn erbyn y syniad?